# Natur Drws Nesaf

## Sut i Wneud Cais am Gyllid

### Paratoi

Mae arnoch angen gwaith papur i ddangos bod gennych chi'r canlynol:

- Pwyllgor (y grŵp o bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer eich grŵp)
- Cyfrif banc
- Datganiad o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf (oni bai eich bod yn grŵp newydd)
- Dogfen lywodraethu (sef ychydig o fanylion ysgrifenedig am eich grŵp, sy'n dweud sut mae'n cael ei redeg)

Efallai hefyd y bydd arnoch angen gwaith papur i ddangos y canlynol:

- Yswiriant
- Polisi iechyd a diogelwch a / neu asesiadau risg
- Polisi cyfleoedd cyfartal (mae polisi yn gyfres ysgrifenedig o ganllawiau rydych yn eu dilyn)
- Polisi amddiffyn neu ddiogelu plant

Gweithiwch gyda'ch grŵp cyfan. Atebwch y cwestiynau allweddol hyn:

- Beth ydych chi eisiau ei wneud? Oes gennych chi'r bobl i'w redeg?
- Faint fydd yn ei gostio? (Peidiwch â dyfalu. Mae angen i chi wneud rhywfaint o ymchwil. Ac mae'n rhaid iddo fod yn gost-effeithiol, sy'n golygu nad ydych yn gwastraffu arian.)
- Pam fod y gwaith hwn yn bwysig? Pwy neu beth sydd ei angen?
- Sut byddwch chi'n gwybod a ydych chi'n gwneud gwaith da? Sut byddwch chi'n gwybod a yw'ch syniad wedi llwyddo?
- Pa mor aml fydd yn digwydd, a pha mor hir y bydd yn para?
- Ble bydd yn digwydd? Oes gennych chi ganiatâd ac yswiriant?

Meddyliwch am arian. Bydd angen i chi lunio cyllideb fanwl. Awgrymiadau:

- Rhestrwch bopeth y byddwch yn talu amdano a faint fydd yn ei gostio
- Rhestrwch yr holl incwm rydych yn ei ddisgwyl (er enghraifft ffioedd aelodaeth, rhoddion, grantiau sydd gennych eisoes)
- Rhaid cael dyfynbrisiau am bopeth y bydd angen i chi dalu amdano
- Peidiwch â thanamcangyfrif! Byddwch yn realistig
- Gallai fod yn ddefnyddiol i chi baratoi cyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfan

Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2022 | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth | Made possible with Heritage Fund | The Queen's Platinum Jubilee 2022 | Ymddiriedolaethau Natur Cymru Wildlife Trusts Wales

# Natur Drws Nesaf

## Dod o hyd i gyllidwr

I ddechrau, mae angen i chi fod yn glir ynghylch canlyniadau eich prosiect. Mae gan wahanol gyllidwyr wahanol flaenoriaethau, ac mae hyn yn golygu y byddant yn ariannu eich prosiect dim ond os oes gennych yr un nodau ag sydd ganddynt hwy.

Mae cyllidwyr angen bod yn siŵr y bydd eich prosiect yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Nid ydynt eisiau gwastraffu arian. Rhaid i chi gael tystiolaeth i ddangos bod eich prosiect yn bwysig. Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd:

- Gallwch ofyn i bobl sy'n cymryd rhan a chofnodi eu hatebion. Defnyddiwch eu dyfyniadau.
- Gallwch ddefnyddio gwybodaeth ystadegol (ffeithiau a rhifau). Dechreuwch gyda gwefannau eich cyngor lleol, yr awdurdod lleol, yr heddlu neu awdurdodau iechyd. Defnyddiwch ffynonellau dibynadwy fel adroddiadau'r Llywodraeth.
- Gallwch ddefnyddio llythyrau cefnogi gan grwpiau eraill, cynghorwyr lleol, yr heddlu ac ysgolion.
- Gallwch ddangos bod gennych gysylltiad â strategaethau lleol a rhanbarthol neu brosiectau'r llywodraeth.

Bydd angen i chi brofi i'ch cyllidwr y byddwch yn llwyddiannus. Mae hyn yn golygu bod angen i chi ddangos bod gennych enw da. Gallech chi ddangos hyn gyda'r canlynol:

- Proffiliau o'r bobl yn eich grŵp a fydd yn cymryd rhan, sy'n dangos eu cymwysterau a'u profiad
- Astudiaethau achos o brosiectau tebyg y mae eich grŵp wedi'u cynnal
- Tystiolaeth o gefnogaeth gan grwpiau neu sefydliadau lleol eraill

## Ysgrifennu eich cais

Pan fydd gennych syniad da o'ch prosiect a'ch canlyniadau, gallwch ysgrifennu eich cais. Ond cofiwch:

- Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod y cyllidwr yn gwybod unrhyw beth, felly peidiwch â defnyddio jargon a gwnewch yn siŵr bod popeth yn glir iawn
- Astudiwch yr hyn y mae'r cyllidwr ei eisiau, a gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio ei eiriau allweddol yn eich cais
- Atebwch y cwestiynau a pheidiwch â malu awyr
- Byddwch yn gadarnhaol ac yn gadarn – mae "byddwn" yn well na "byddwn yn ceisio"
- Gwnewch y cais yn hawdd ei ddarllen gyda phenawdau a phwyntiau bwled clir
- Gofynnwch i rywun arall ei brawfddarllen

# Natur Drws Nesaf

## Dod o hyd i gyllidwr

My Funding Central https://www.myfundingcentral.co.uk/

Funds Online https://fundsonline.org.uk/

UK Community Foundations https://www.ukcommunityfoundations.org/

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol https://www.tnlcommunityfund.org.uk/

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol https://www.heritagefund.org.uk/

Loteri Cod Post y Bobl https://www.postcodetrust.org.uk/

Comic Relief https://www.comicrelief.com/funding/funding-opportunities

ENTRUST – Cronfa Cymunedau Tirlenwi https://www.entrust.org.uk/landfill-community-fund/finding-funding/funder-search/

Cydweithfeydd Community Shares https://www.uk.coop/support-your-co-op/community-shares

Mae cymdeithasau tai ledled y DU yn cyllido prosiectau lleol yn aml

Mae gan fanciau mawr i gyd gronfeydd amrywiol ar gael ar gyfer prosiectau lleol a chenedlaethol

Gallai cyllido torfol fod yn ddewis ar gyfer prosiectau llai hefyd

## Am wybodaeth fanylach, edrychwch ar:

Canllaw y Ffederasiwn Cenedlaethol o Barciau a Gofod Gwyrdd, tudalennau 9 i 12 - https://natfedparks.org.uk/wp-content/uploads/2020/02/PAGCE-events-workshop-docs-all-collated.pdf

Mae gan y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Mudiadau Gwirfoddol lawer o help. Ewch i https://beta.ncvo.org.uk/help-and-guidance/funding-income/all-about-grants/ am chwe erthygl am grantiau. Am gyngor am gynllun busnes, a rhai templedi i'w lawrlwytho, edrychwch ar https://knowhow.ncvo.org.uk/tools-resources/business-plan-template. Ac mae sut i egluro pam mae eich prosiect yn bwysig ar gael yma: https://knowhow.ncvo.org.uk/how-to/how-to-explain-why-your-project-is-needed-in-300-words

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales